Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.4 Ffynonellau cyllid

Trosolwg

Dyfeisiwyd y daflen wybodaeth hon i roi manylion am ffynonellau cyllid sydd ar gael i ariannu gweithgareddau eich mudiad i gyflawni ei nodau a'i amcanion. Rhoddir gwybodaeth fwy manwl ym mhob un o'r taflenni gwybodaeth unigol.

Diben y manylion ym mhob taflen yw rhoi arweiniad cyffredinol, bydd y cysylltiadau a roddir yn gallu rhoi gwybodaeth fwy manwl ichi. Bydd eich cyngor gwirfoddol sirol lleol hefyd yn gallu eich helpu i ddod o hyd i ffynonellau cyllid i ateb eich anghenion.

7.4.1 Grantiau bach

Dyfeisiwyd y daflen wybodaeth hon i roi manylion am grantiau bach, *h.y.* hyd at tua £15,000, sydd ar gael i grwpiau a mudiadau bach yn y sector gwirfoddol yng Nghymru.

Cofiwch fod nifer o gyllidwyr, hyd yn oed y rhai sy'n cynnig grantiau sylweddol, yn aml ond yn darparu rhaglenni grantiau bach wedi eu teilwrio'n benodol i anghenion grwpiau bach. Mae'r prosesau ymgeisio fel arfer wedi eu symleiddio ac mae angen dilyn gweithdrefnau llai ffurfiol.

7.4.2 Cyllid loteri

Dyfeisiwyd y daflen wybodaeth hon i roi manylion am grantiau gan y Gronfa Loteri Fawr sydd ar gael i grwpiau a mudiadau yn y sector gwirfoddol yng Nghymru.

Y Gronfa Loteri Fawr 2006 – 2009

Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn rhoi mwy na £120 miliwn i Gymru rhwng 2006 a 2009. Mae'r rhaglenni i gyd yn rhan o genhadaeth y Gronfa i wella cymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus. Bydd gan y rhaglenni dair prif thema:

- Cefnogi dysgu yn y gymuned a chreu cyfleoedd
- Hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol
- Hybu lles.

Cefnogir y themâu hyn gan dri chanlyniad y mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gobeithio y bydd ei chyllid yn eu cyflawni:

- Bydd gan bobl o bob oed y sgiliau a'r addysg i gwrdd â sialensau'r gymdeithas gyfoes
- Pobl yn gweithio gyda'i gilydd dros gymunedau cryfach, cyfiawnder cymdeithasol ac amgylchoedd gwledig a threfol gwell
- Pobl a chymunedau iachach a mwy corfforol weithredol.

Mae rhaglenni'r Gronfa Loteri Fawr yn rhannu'n ddau faes: strategol ac ar sail galw. Mae'r rhaglenni ar sail galw'n annog grwpiau a mudiadau i gynnig eu syniadau a'u hatebion eu hunain i'r Gronfa am gyllid.

Mae'r rhaglenni strategol yn canolbwyntio mwy ar y math o ganlyniadau y mae'r Gronfa eisiau eu gweld yn cael eu cyflawni, er eu bod dal yn annog atebion lleol i anghenion lleol.

7.4.3 Ymddiriedolaethau a Sefydliadau

Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi manylion am ymddiriedolaethau sy'n rhoi grantiau i gyrff gwirfoddol (nid i unigolion fel rheol) sydd wedi eu lleoli yng Nghymru, gyda chysylltiad arbennig â Chymru, neu os yw Cymru neu rannau o Gymru o fewn yr ardal lle maen nhw'n dosbarthu grantiau. Maen nhw'n cynrychioli cyfran fach o'r cannoedd lawer o ymddiriedolaethau elusennol yn y DU, gan gynnwys cyrff grantiau mawr. Bydd eich cyngor gwirfoddol sirol lleol yn gallu dod o hyd i ymddiriedolaethau eraill a allai ateb eich anghenion.

7.4.4 Grantiau gan Lywodraeth y Cynulliad

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig ystod eang o grantiau i gyrff ledled Cymru fel awdurdodau lleol, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, a'r sector gwirfoddol. Defnyddir y grantiau i ddarparu gwasanaethau sy'n ateb anghenion y cyhoedd yng Nghymru, fel gwella tai, lleihau digartrefedd, hybu diogelwch cymunedol ac adfywio ardaloedd difreintiedig.

Mae'r daflen wybodaeth hon yn cynnwys manylion am gynlluniau grantiau a gynigir gan Lywodraeth y Cynulliad naill ai'n uniongyrchol, neu drwy gyrff annibynnol. Rhoddir crynodeb byr o bob cynllun ynghyd â'i fanylion cyswllt.

7.4.5 Grantiau gan Lywodraeth ganolog

Mae'r daflen wybodaeth hon yn sôn am ystod eang o gyllid gan Lywodraeth ganolog yn ogystal â'r cyllid sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth y Cynulliad.

Os yw mudiad yn barod i dreulio amser yn ymchwilio i gyfleoedd yn fanwl, ac yn addasu ceisiadau i gwrdd â blaenoriaethau'r llywodraeth, gall fod yn werth chweil holi am y cyllid hwn.

Rhaid gofalu i sicrhau bod y cyllid ar gael i Gymru ac y gellir cwrdd â nodau ac amcanion y rhaglen grantiau. Argymhellir eich bod yn cysylltu'n fuan â'r adran o'r llywodraeth sy'n ariannu'r rhaglen.

7.4.6 Cyllid Ewropeaidd

Mae'r daflen wybodaeth hon yn ceisio rhoi trosolwg ar brif ffynonellau Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd rhwng 2007-2013.

Y Rhaglen Cydgyfeirio
Mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi cymhwyso ar gyfer y Rhaglen Cydgyfeirio, sef y lefel uchaf o gyllid Ewropeaidd sydd ar gael drwy'r rhaglen hon, sy'n olynu Amcan Un. Bydd hyn yn dod â thua £1.3 biliwn (€1.85 biliwn) mewn buddsoddiad yn ystod 2007-2013.

Mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cynnwys yr awdurdodau unedol canlynol: Blaenau Gwent, Caerffili, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Ceredigion, Sir Ddinbych, Gwynedd, Merthyr Tudful, Castell Nedd Port Talbot, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Torfaen ac Ynys Môn.

Y Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol
Llwyddodd gweddill yr awdurdodau lleol (Caerdydd a'r Fro, Sir Fynwy, Casnewydd, Powys, Wrecsam a Sir y Fflint) i gymhwyso ar gyfer y Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol, sydd wedi olynu'r rhaglenni Amcan 2 a 3 Ewropeaidd, fydd yn darparu cyllid o tua £97 miliwn (€136 miliwn) yn ystod 2007-2013.

Y Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol
Bydd rhannau o Gymru hefyd yn gymwys ar gyfer y Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol i ardaloedd traws-ffiniol (rhwng arfordir Gorllewinol Cymru ac arfordir Dwyreiniol Iwerddon); a rhaglenni traws-genedlaethol a rhyng-ranbarthol.

Mae'r prosesau ymgeisio eto i'w datblygu ond, yn y cyfamser, mae rhagor o wybodaeth ar gael oddi wrth:

Judith Stone, Swyddog Polisi, WCVA
Ffôn: 029 2043 1744
jstone@wcva.org.uk
www.wcva.org.uk

7.4.7 Cyllid ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol

Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhoi manylion am ffynonellau cyllid i fudiadau sy'n rhedeg prosiectau gofal iechyd a chymdeithasol a hybu iechyd.

Yn ogystal ag ystod eang o ymddiriedolaethau a sefydliadau annibynnol sy'n cefnogi prosiectau yn y meysydd gwaith hyn yn benodol, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyllido prosiectau iechyd a gofal cymdeithasol yn uniongyrchol o dan Adran 64 Deddf y Gwasanaeth Iechyd 1968 ac Adran 28(b) Deddf y Gwasanaeth Iechyd 1977.

7.4.8 Ffynonellau cyllid ar gyfer prosiectau chwaraeon

Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhoi manylion am ffynonellau cyllid i fudiadau gwirfoddol sy'n rhedeg prosiectau chwaraeon. Diben y manylion yn y daflen yw rhoi arweiniad cyffredinol, bydd y cysylltiadau a roddir yn gallu rhoi gwybodaeth fwy manwl ichi.

7.4.9 Cyllid ar gyfer prosiectau celfyddyd

Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhoi manylion am ffynonellau cyllid i fudiadau gwirfoddol sy'n rhedeg prosiectau celfyddyd.

Gall y ffrydiau cyllido fod yn amrywiol, o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad i ymddiriedolaethau a sefydliadau gyda diddordeb penodol mewn hybu'r celfyddydau. Cyn gwneud cais, dylech ystyried yn ofalus pa ffrwd gyllido sy'n cynnig yr ateb gorau i nodau ac amcanion eich mudiad.

7.4.10 Cyllid ar gyfer prosiectau amgylcheddol

Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhoi manylion am ffynonellau cyllid posibl i fudiadau gwirfoddol sy'n rhedeg prosiectau amgylcheddol.

Mae'r wybodaeth yn rhoi manylion am yr ymddiriedolaeth a'r sefydliadau a'r cyrff statudol sy'n adnabyddus am gyllido prosiectau amgylcheddol. Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr.

7.4.11 Cyllid ar gyfer adeiladau cymunedol

Mae dod o hyd i gyllid ar gyfer eich adeilad cymunedol, neuadd y pentref neu ganolfan gymunedol yn gallu ymddangos i fod yn dasg gymhleth iawn, gyda'r holl gyrff grantiau statudol ac anstatudol sy'n gweithio ar lefelau Ewropeaidd, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

O gofio hyn, mae'r daflen wybodaeth hon yn cynnwys y cyllidwyr mwyaf amlwg sydd, ar y gorau, yn rhoi blaenoriaeth i adeiladau cymunedol, neu o leiaf yn ystyried anghenion adeiladau cymunedol. Dylid defnyddio'r daflen fel arweiniad cyffredinol yn unig. Dylech o hyd geisio cysylltu â'r cyllidwr priodol am fwy o wybodaeth fanwl cyn ymgeisio.

7.4.12 Cyllid ar gyfer prosiectau ieuenctid

Yn gynyddol, mae nifer o fudiadau eisiau cyllido prosiectau sydd wedi eu hanelu'n benodol at bobl ifanc. Mae gan nifer o gyllidwyr, gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad, bellach raglenni wedi eu teilwrio ar gyfer materion ieuenctid.

Mae'r daflen wybodaeth hon yn sôn am nifer o ffrydiau cyllido sy'n nodweddiadol o'r math o gyllid sydd ar gael i brosiectau o'r fath.

7.4.13 Ariannu lleol

Lluniwyd y taflenni hyn i roi gwybodaeth am grantiau bach, sydd ar gael i grwpiau a mudiadau bach o fewn y sector gwirfoddol yn y Sîr.

7.4.14 Ariannu ar gyfer mannau addoli

Mae yna nifer o ymddiriedolaethau a sefydliadau sy'n darparu cymorth arian grant yn benodol ar gyfer mannau addoli megis adeiladau crefyddol.

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr
Tŷ Carwyn, 3 Heol San Pedr, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1LN
Elusen Gofrestredig *1062144*

Ffôn: 01267 236367 info@cavs.org.uk
Ffacs: 01267 239933 www.cavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:30/10/2008

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk